



# Cefnogi ein Dysgwyr Cronfa Ariannol Wrth Gefn (CAWG) Nodiadau cyfarwyddyd cais 2019/20

Cyn i chi gwblhau eich ffurflen gais CAWG mae'n bwysig eich bod yn darllen y nodiadau cyfarwyddyd hyn a'u defnyddio i gwblhau'r ffurflen. Os nad ydych yn deall unrhyw beth, neu'n cael trafferthion wrth gwblhau eich cais, yna mae ein tîm Gwasanaethau Dysgwyr ar gael i'ch cynorthwyo.

## Dychwelwch eich ffurflen gais wedi'i chwblhau i Wasanaethau Dysgwyr eich campws

Bydd angen i chi lenwi ffurflen gais ar gyfer bob blwyddyn astudio. Os ydych wedi derbyn cymorth yn flaenorol, nid yw hynny'n gwarantu cymorth ar gyfer blynyddoedd dilynol.

Prosesir y ceisiadau ar sail y cyntaf i'r felin. Cynghorwn eich bod yn cyflwyno'ch ffurflen gais cyn gynted ag y gallwch i sicrhau bod eich cyllid mewn lle mor fuan â phosibl.

Mae'r holl gymorth yn ddibynnol ar gyllid Llywodraeth Cymru. Nid yw cymorth wedi'i warantu nes eich bod wedi derbyn hysbysiad ysgrifenedig gan Goleg Gwent.

## A ydw i'n gymwys?

I dderbyn cymorth ariannol gan y Gronfa Ariannol wrth gefn (CAWG) rhaid i chi:

- Fod wedi derbyn Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCF) neu Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLIC). Gallwch gyflwyno eich cais i'r CAWG wrth i chi ddisgwyl am eich hysbysiad dyfarniad gan y LCF neu GDLIC. Os nad ydych wedi gwneud cais am LCF neu GDLIC, mae pecynnau cais ar gael yn eich campws lleol, neu gallwch lawrlwytho pecyn o [www.studentfinancewales.co.uk](http://www.studentfinancewales.co.uk) neu galwch 0300 200 4050
- Fod yn 16 oed neu'n hŷn ar 31ain Awst 2019 ac wedi'ch cofrestru ar gwrs addysg bellach llawn amser; neu ar gwrs rhan amser os cewch eich adnabod fel rhywun mewn gofal neu wedi gadael gofal
- Fod â phresenoldeb yn uwch na 90% ac yn glynu at God Ymddygiad y Coleg
- Fod yn wladolyn y DU, neu wedi bod yn breswlydd yn y DU am y tair blynedd ddiwethaf ac nad ydych yn amodol ar gyfyngiadau ar eich arhosiad dan y Ddeddf Mewnffudo.

Petai eich amgylchiadau yn newid, er enghraifft eich cwrs, nifer o oriau astudio, trefniadau gofal plant neu amgylchiadau personol, rhaid i chi adael i ni wybod.

## Adran A: At ba ddiben yr ydych angen cymorth ariannol?

Mae cymorth ar gael i ddysgwyr sy'n profi anawsterau ariannol o ganlyniad iddynt fynychu'r coleg: Gellir darparu cymorth ar gyfer y canlynol:

- Trafnidiaeth**  
Os ydych yn 16 – 18 oed ac yn byw ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd neu yn Nhorfaen, RHAIID i chi wneud cais am docyn bws yn y lle cyntaf. Os ydych chi'n 19 oed neu'n hŷn, yn byw yn Sir Fynwy neu eich bod wedi'ch gwrthod gan eich awdurdod lleol, RHAIID i chi gwblhau ffurflen tocyn bws Coleg Gwent wrth i chi gofrestru. Os ydych yn gymwys, byddwch yn talu cost tocyn bws yn dymhorol ac yn teithio am ddim yn ystod oriau'r coleg. Mae'n RHAIID i'r rheiny sy'n 16 – 18 oed wneud cais am Fy Ngherdyn Teithio.
- Offer, cit, gwisg unffurf neu Gyfarpar Diogelwch Personol (PPE)**  
Os yw eich cwrs yn gofyn i chi brynu offer, cit, gwisg unffurf neu PPE angenrheidiol, gallwch wneud cais am gymorth ariannol i dderbyn ad-daliad rhannol ar gostau.
- Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**  
Os yw eich cwrs yn gofyn am wiriad DBS, gallwch wneud cais am gymorth ariannol i dderbyn ad-daliad rhannol ar y gost.
- Costau prydau bwyd \***  
Os ydych yn 16 – 18 oed a chydag incwm cartref blynyddol o £18,370 gallwch dderbyn taleb pryd bwyd dyddiol hyd at werth o £3.60 bob dydd i'w ddefnyddio yn ffreuturau'r coleg.

## • Gofal Plant

I dderbyn cymorth ariannol tuag at gostau gofal plant, rhaid i chi lenwi ffurflen CAWG gofal plant arall a chael incwm cartref blynyddol o £25,000 neu is. Bydd y GAWG yn talu hyd at 90% o gostau gofal plant ar gyfer un plentyn, a hyd at £45 y dydd.

**\*Darparwch eich dogfennau ategol fel y nodir yn Adran E.**

---

## Adran B: Manylion personol

Cwblhewch yr HOLL fanylion a chadarnhewch gyda phwy yr ydych yn byw. Nodwch, os gwelwch yn dda, os oes gennych blant dan 16 oed sy'n dibynnu'n ariannol arnoch, neu os ydych yn gofalu am aelod o'r teulu sy'n sâl neu'n anabl.

Darparwch enw llawn eich cwrs, gan gynnwys y lefel, i'n caniatáu ni i asesu a ydych yn gymwys i dderbyn ad-daliad rhannol tuag at gost offer hanfodol neu DBS ai peidio.

---

## Adran C: Manylion talu'r dysgwr

Telir y gyllideb ar gyfer grantiau penodol drwy BACS. Er mwyn i ni dalu grantiau i'ch cyfrif banc yn uniongyrchol bydd RHAID i chi ddarparu manylion llawn eich cyfrif banc. Sicrhewch fod y manylion yn gywir a bod y cyfrif yn eich enw chi neu ni allwn eich talu. Os bydd manylion eich cyfrif yn newid, yna gadewch i ni wybod.

---

## Adran CH: Manylion y cartref

Cwblhewch yr HOLL fanylion a chadarnhewch gyda phwy yr ydych yn byw. Nodwch, os gwelwch yn dda, os oes gennych unrhyw blant dan 16 oed sy'n dibynnu'n ariannol arnoch, neu os ydych yn gofalu am aelod o'r teulu sy'n sâl neu'n anabl.

---

## Adran D: Incwm eich cartref

Cwblhewch Adran D dim ond os ydych yn gwneud cais am gymorth ariannol tuag at gost **gofal plant** neu **brydau bwyd**.

Rhaid i chi ddarparu'r dogfennau ategol canlynol ar eich cyfer chi ac unrhyw aelodau eraill o'ch cartref:

- Copïau o'ch slipiau cyflog
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Cynhwysol
- Dwy gyfrif banc sy'n olynol i'w gilydd ac â dyddiad o fewn y 6 mis diwethaf ble y telir y cwbl uchod
- Lwfans Ceiswyr Gwaith
- Credyd Treth Gwaith a / neu Gredyd Treth Plant (TC602)
- Budd-dal Analluogrwydd
- Yr Asiantaeth Cynnal Plant (CSA) / cynhaliaeth

---

## Adran DD: Datganiad a diogelu data

Darllenwch y datganiad diogelu data, arwyddwch a nodwch y dyddiad ar y ffurflen gais i ddangos eich bod wedi deall y datganiad ac yn darparu eich caniatâd.

---

## Sut y gallaf ganfod a yw fy nghais yn llwyddiannus ai peidio?

Bydd pob gohebiaeth yn cael ei anfon drwy e-bost i'ch cyfrif e-bost coleg. Nid yw'r cyllid wedi'i warantu hyd nes eich bod wedi derbyn cadarnhâd gan Goleg Gwent. Mae cefnogaeth CAWG yn ddewisol ac ni ellir ei hawlio fel mater o drefn, mae'r cyllid yn brin ac nid oes unrhyw ddyfarniad yn warantedig. Mae dyraniadau hefyd yn ddarostyngedig i unrhyw newidiadau cyllidebol y gall Llywodraeth Cymru eu gorfodi.

Ni ddylai ymrwymiad i'ch cwrs fod yn seiliedig ar dderbyn y gefnogaeth hon. Os byddwch yn gadael y coleg cyn diwedd eich cwrs, efallai bydd gofyn i chi dalu'n ôl holl neu ran o'ch gwobr CAWG.

---

## Beth os bydd fy nghais yn aflwyddiannus?

Byddwn yn anfon hysbysiad i'ch cyfrif e-bost coleg. Os hoffech wneud apêl, yna mae gennych 14 diwrnod o ddyddiad yr e-bost i wneud hynny.

Dylai apeliadau gynnwys eich rhesymau dros apelio, ac unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gallwch ei darparu a'i hanfon at: Swyddog Derbyniadau, Coleg Gwent, Campws Dinas Casnewydd, Ffordd Nash, Casnewydd, NP19 4TS neu anfonwch e-bost at [fcf@colegwent.ac.uk](mailto:fcf@colegwent.ac.uk). Byddwn yn eich hysbysu o'r canlyniad cyn pen 14 diwrnod o'i dderbyn.